

Canllaw i Rieni a Gofalwyr ar Broses Pontio Pobl Ifanc ag Anableddau

Tachwedd 2019

1. Cyflwyniad

Ysgrifennwyd y canllaw hwn ar gyfer rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc sydd â Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig yn Sir y Fflint.

Rydym yn gobeithio y bydd y wybodaeth y eich helpu i ganfod y wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi eich teulu wrth bontio o'r gwasanaethau a ddarperir gan Wasanaethau Cymdeithasol i Blant i'r rhai a ddarperir gan Wasanaethau Cyhoeddus i Oedolion os ydych yn cael cymorth gan Dîm CIDS/Pontio.

Mae Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru) 2014, yn amcanu at roi mwy o lais a mwy o reolaeth i'r rhai hynny sy'n derbyn cymorth mewn perthynas â'r gofal a'r cymorth maent yn ei dderbyn. Yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd yna nifer o newidiadau yn cael eu gwneud er mwyn alinio'r broses Pontio â'r Ddeddf ac er mwyn rhoi lle canolog i'r unigolyn yn y broses.

Tra bod y newidiadau yma yn digwydd, byddwn yn parhau i wrando ar bobl ifanc drwy gydol y broses bontio er mwyn eu helpu, pryd bynnag fo hynny'n bosibl, i wireddu eu breuddwydion.

Mae pob person ifanc yn unigolyn, ac nid oes yna ddull 'unffurf' o ymdrin â phontio, ond gobeithir y bydd y canllaw hwn yn helpu i ateb rhai o'ch cwestiynau, ac yn rhoi rhai awgrymiadau i chi ynglŷn â ble y gallwch gael mwy o wybodaeth.

Bydd y llyfryn hwn yn ymdrin â'r canlynol:

- Beth yw Pontio i bobl ifanc?
- Y Tîm Pontio
- Cynllunio ar gyfer Pontio
- Beth i'w ddisgwyl yn ystod y cyfnod Pontio
- Newid i fod yn Oedolyn
- Newidiadau i Bontio yn y dyfodol
- Cysylltiadau ac adnoddau defnyddiol

2. Beth yw Pontio i Bobl Ifanc?

Mae pontio yn gyfnod o newid. Mae pob un ohonom yn mynd drwy gyfnodau o bontio yn ystod ein bywydau, o'r ysgol gynradd i'r uwchradd neu symud tŷ.

I bobl ifanc ag Anableddau, gall Pontio fod yn amser pryd maent yn:

- Gadael ysgol
- Mynd i goleg neu brifysgol
- Symud i fyw'n annibynnol
- Symud at Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion

Gall newidiadau bywyd fod yn gyfnod o straen i bawb. Mae yna nifer o benderfyniadau i'w gwneud a gall rhai fod yn anodd i chi a'r person ifanc yr ydych yn ei gynnal. Fodd bynnag, gall fod yn gyfnod gwirioneddol gyffrous, pryd gall y person ifanc symud yn ei flaen i wireddu amcanion.

Efallai y byddwch yn cael eich holi am Bontio am y tro cyntaf yn gynnar, pan fo'r person ifanc yn mynd i Flwyddyn 8. Efallai ei bod yn anodd meddwl am Bontio bryd hynny, ond drwy gytuno i dderbyn cymorth y Tîm Pontio, bydd y gwasanaeth yn gallu cynllunio ar gyfer y dyfodol.

3. Y Tîm CIDS/Pontio

Datganiad Cenhadaeth


Cefnogi llwybr esmwyth i fyd oedolion i blant a phobl ifanc ag anableddau, gan hyrwyddo eu hawl i'w lleisiau gael eu clywed ar bob cam o'r daith.

Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth Anabledd Integredig i Blant (CIDS) a'r Tîm Pontio wedi uno. Mae'r Tîm CIDS/Pontio yn amcanu at roi cymorth i bobl ifanc 0-15 oed sydd ag anabledd corfforol, nam ar y synhwyr neu anabledd dysgu, ynglŷn â:

- Hyrwyddo annibyniaeth
- Cymorth gyda choleg/hyfforddiant
- Gweithgareddau cymdeithasol yn y gymuned a hyfforddiant cludiant
- Profiad gwaith all arwain at swyddi posibl yn y dyfodol

Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar bontio esmwyth a didrfferth at Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion gyda chymorth y person ifanc, ei ofalwyr/teulu ac asiantaethau sy'n bartneriaid. Mae'r tîm yn defnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn sicrhau bod nodau a gobeithion y person ifanc yn cael eu gwireddu pryd bynnag fo hynny'n bosibl, bod y person ifanc yn cael ei werthfawrogi, ac y gall wneud penderfyniadau gwybodus a'i fod yn cael cymorth i ddysgu sgiliau bob dydd.

Mae'r Tîm CIDS/Pontio yn rhan o Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, ond mae'n gweithio'n agos â Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant mewn meysydd megis diogelu.



4. Cymhwyster i Dderbyn Cymorth

O dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 newydd, gall person fod yn gymwys i dderbyn gwasanaethau os bydd asesiad yn canfod bod gorchfygu rhwystrau er mwyn cyflawni eu deilliannau personol yn golygu bod angen i awdurdod lleol baratoi a sicrhau bod cynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth i ofalwyr yn cael ei ddarparu.

Bydd yr asesiad yn edrych ar 5 peth:

1. amgylchiadau'r person
2. ei ddeilliannau personol
3. rhwystrau rhag gwireddu'r deilliannau hynny
4. risgiau i'r person hwnnw neu i bobl eraill os na wireddir y deilliannau hynny
5. cryfderau a gallu'r person

5. Cynllunio ar gyfer Pontio

Yn ystod y broses o bontio o Wasanaethau Cymdeithasol i Blant i wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, bydd angen mynychu llawer o gyfarfodydd. Pwrpas y cyfarfodydd yma yw helpu'r person ifanc, gyda'ch cymorth chi, gwneud dewisiadau ynglŷn â beth maent eisiau ar gyfer y dyfodol.

Bydd y cyfarfodydd cyntaf yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth i chi a'r person ifanc, a chanfod beth mae'r person ifanc yn ei hoffi a ddim yn ei hoffi. Wrth i'r cyfnod pontio agosáu, efallai y bydd angen gwneud mwy o benderfyniadau, a bydd mwy o wybodaeth am yr opsiynau ar gael.

Cynghorion ynglŷn â siarad am bontio

Rhieni

- ceisiwch beidio â thybio beth mae eich plentyn eisiau yn y dyfodol - gofynnwch iddo beth sy'n bwysig iddyn nhw
- ewch ati i gael yr holl wybodaeth am yr holl opsiynau cyn y cyfarfodydd, er enghraifft, addysg a chymorth gyda byw'n annibynnol
- cyn y cyfarfodydd, anogwch eich plentyn i lunio rhestr o'r eitemau fyddai'n hoffi eu trafod
- gofynnwch i'ch plentyn sut mae eisiau i chi ei gynorthwyo yn y cyfarfodydd
- anogwch eich plentyn i wneud y siarad os yw'n teimlo y gall wneud hynny
- yn y cyfarfodydd, atgoffwch eich plentyn yn hytrach na siarad ar ei ran. Os ydych yn credu na atebwyd gwestiynau eich plentyn, gofynnwch iddo a yw'n dymuno trafod mwy ar unrhyw fater.

Ffynhonnell: *Preparing for adult life and transition. Information for families* Contact a Family (2008)

Dyma rai cwestiynau fyddai'r person ifanc eisiau meddwl amdanynt efallai:

- Pwy wyf eisiau i fy helpu?
- Sut allaf fod yn fwy annibynnol?
- Sut allaf ddweud wrth bobl beth wyf eisiau?
- Beth hoffwn ei wneud yn y dyfodol?
- A oes gen i anghenion iechyd y mae angen i mi feddwl amdanynt?
- Pa arian fydd gen i a phwy all fy helpu i roi trefn arno?
- Ym mhle rwyf eisiau byw?

Efallai y byddwch yn dymuno gweithio gyda'r person ifanc yr ydych yn ei gynnal ar lenwi 'proffil un dudalen' (Atodiad 1). Mae'r proffil yn helpu'r rhai fydd yn gweithio gyda'r person ifanc i ddeall beth sy'n bwysig iddo a beth yw'r ffordd orau o gydweithio.

6. Beth i'w Ddisgwyl yn Ystod y Cyfnod Pontio

Er bod pob taith drwy'r cyfnod Pontio yn wahanol i bob person ifanc unigol, mae yna rai cerrig milltir ar hyd y daith.

Oedran	Blwyddyn	
13 -14	9	<p>Bydd eich ysgol yn trefnu'r Adolygiad Blynyddol Blwyddyn 9 pan fo'r person ifanc yn gallu dechrau meddwl am beth fyddant eisiau ei wneud efallai pan fyddant yn gadael yr ysgol ac yn y dyfodol. Efallai bod hynny'n ymddangos ymhell i ffwrdd, ond mae'n bwysig dechrau cynllunio'n gynnar ar gyfer pontio.</p> <p>Bydd asiantaethau sydd wedi bod yn gweithio gyda'ch teulu yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod, yn cynnwys staff o'r ysgol, Gyrfa Cymru, eich Gweithiwr Pontio Allweddol o'r Tîm Anabledd Plant a phobl o'r gwasanaethau lechyd os oes gan y person ifanc unrhyw anghenion iechyd. Gallwch ddewis i bobl eraill fynychu hefyd, megis Eiriolwr.</p> <p>Bydd Gyrfa Cymru yn ysgrifennu 'Cynllun Gyrfa'. Bydd hynny'n ystyried beth fydd y person ifanc yn dymuno ei wneud efallai yn y dyfodol. Os oes gan y person ifanc anabledd dysgu ac yn mynd i goleg preswyl, bydd Cynghorydd Anabledd Dysgu yn dechrau gweithio gyda chi hefyd.</p> <p>Bydd y Tîm CIDS/Pontio hefyd yn datblygu 'Cynllun Gofal a Chymorth' fydd yn cael ei adolygu bob 6 mis gyda chi a'r person ifanc. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys mwy o wybodaeth am beth mae'r person ifanc yn ei hoffi neu ddim yn ei hoffi.</p>
14 -15	10	<p>Bydd Adolygiad Blynyddol yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn ysgol er mwyn sicrhau bod y cynlluniau'n gyfredol. Mae'n berffaith iawn os yw'r cynllun yn newid.</p>
15-16	11	<p>Bydd Adolygiad Blynyddol yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn ysgol er mwyn sicrhau bod y cynlluniau'n gyfredol.</p> <p>Os bydd y person ifanc yn mynd yn ei flaen i goleg neu i ddysgu yn y gweithle, bydd Gyrfa Cymru yn paratoi 'Cynllun Dysgu a Sgiliau'. Bydd hwn yn cael ei rannu gyda'r coleg neu'r gweithle gyda chaniatâd y person ifanc. Bydd yn helpu i'r coleg neu weithle ddeall pa gymorth sydd ei angen ar y person ifanc. Bydd y rhain yn cael eu paratoi erbyn diwedd Mai.</p> <p>Bydd y Cynllun Dysgu a Sgiliau yn cael ei adolygu erbyn hanner tymor mis Hydref drwy gysylltu â'r person ifanc i weld a yw'r cynllun yn gweithio.</p>

		<p>Pan fo'n 16 oed gall y person ifanc wneud cais am Daliadau Uniongyrchol drosto ei hun. Cyn yr oedran hwnnw, gall rhieni wneud cais. Mae Taliadau Uniongyrchol yn rhoi mwy o reolaeth a dewis i chi ynglŷn â gan bwy y gallwch brynu gwasanaethau, yn hytrach na'u derbyn gan y Cyngor.</p> <p>Gall person ifanc fod yn gymwys i dderbyn Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA). Mae LCA yn destun prawf modd.</p>
16-17	12	<p>Bydd Adolygiad Blynyddol yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn ysgol er mwyn sicrhau bod y cynlluniau'n gyfredol.</p> <p>Bydd eich ysgol yn canfod beth yw diddordebau'r person ifanc ac yn canfod lleoliad profiad gwaith. Siaradwch â'ch ysgol i gael mwy o wybodaeth. Bydd yr ysgol hefyd yn cynorthwyo'r person ifanc gyda hyfforddiant cludiant er mwyn gwneud iddynt deimlo'n fwy hyderus ar gludiant cyhoeddus, ac wrth wneud cais am bas bws.</p> <p>Efallai bydd y person ifanc hefyd y gymwys i dderbyn Taliadau Annibyniaeth Personol (TAB).</p>
17-18	13	<p>Bydd Adolygiad Blynyddol yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn ysgol er mwyn sicrhau bod y cynlluniau'n gyfredol. Efallai y bydd aelodau staff eraill o Wasanaethau Iechyd i Oedolion yn dechrau mynychu'r cyfarfodydd os bydd hynny'n briodol.</p> <p>Mae'r person ifanc yn gymwys i bleidleisio pan yn 18 oed.</p> <p>Os bydd y person ifanc yn hysbys i wasanaethau iechyd i blant, efallai y bydd gwasanaethau iechyd i oedolion yn dod yn rhan o hyn hefyd. Siaradwch â'ch gweithwyr iechyd proffesiynol ynglŷn â sut all y cymorth a ddarperir i'r person ifanc newid wrth iddynt dyfu'n hŷn.</p> <p>Os bydd y person ifanc yn mynd i Brifysgol neu unrhyw leoliad Addysg Uwch neu Bellach arall, bydd eu cynllun Dysgu a Sgiliau yn cael ei rannu â'r sefydliadau hynny hefyd, gyda chaniatâd y person ifanc. Byddai Gyrfa Cymru yn parhau i fod yn rhan o'r Adolygiad Blynyddol a'r Cynlluniau Gyrfa.</p>
18-19		<p>Mae gan unrhyw un sy'n hŷn na 18 oed fynediad i 'Borth Sgiliau Gwybodaeth' Gyrfa Cymru. Mae hyn yn helpu i wella eu cymwysterau a'u sgiliau.</p> <p>Efallai bydd y person ifanc yn gallu cael mynediad i Hyfforddwyr Swyddi drwy Dîm CIDS/Pontio. Gall yr Hyfforddwyr Swyddi gynorthwyo'r person ifanc gyda gwirfoddoli neu gyflogaeth nes eu bod yn teimlo'n ddigon hyderus i fynd ar eu pennau eu hunain. Siaradwch â'ch Gweithiwr Allweddol ynglŷn â'r opsiynau sydd ar gael.</p> <p>Bydd asesiad yn cael ei gynnal er mwyn pennu'r gwasanaethau gorau ar gyfer y person ifanc wrth iddynt fynd rhagddynt i fyd oedolion.</p>

Eiriolwr yw rhywun sy'n helpu person i gyfathrebu eu dymuniadau a'u teimladau os bydd unrhyw beth yn eu rhwystro rhag gneud hynny eu hunain. Gall eiriolwyr fod yn aelod o'r teulu neu unrhyw berson priodol, cyn belled â'u bod yn cynrychioli dymuniadau'r unigolyn. Hefyd, gellir penodi Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol sy'n annibynnol ar y teulu ac unrhyw sefydliad sy'n ymwneud â'r person ifanc.

7. Newid i fod yn Oedolyn

Addysg

Wrth feddwl am symud i goleg, bydd Gyrfa Cymru yn gweithio gyda'r person ifanc er mwyn edrych ar ba opsiynau sydd ar gael iddynt. Bydd yr Awdurdod Lleol bob amser yn edrych ar ba gyfleoedd sydd ar gael yn lleol cyn ystyried anfon pobl ifanc i Golegau Preswyl. Drwy ddefnyddio'r dull yma, bydd y person ifanc yn gallu gwneud ffrindiau am oes a rhwydweithiau yn eu cymunedau lleol ac yn dysgu addasu i unrhyw newidiadau lleol wrth iddynt ddigwydd yn raddol.

Yn Sir y Fflint, mae Coleg Cambria yn darparu ystod eang o gymorth i bobl ifanc ag anableddau. Maent wedi cynhyrchu 'Canllaw ar gymorth a gwasanaethau i fyfyrwyr ag anableddau' sy'n rhoi mwy o wybodaeth ar beth sydd ar gael yn y coleg. Gallwch hefyd weld eu gwefan: www.cambria.ac.uk

Mae yna hefyd leoliadau preswyl yn yr ardal leol. Efallai y bydd pobl ifanc yn dymuno mynychu coleg preswyl os na ellir bodloni eu hanghenion y lleol. Fodd bynnag, mae'n bwysig trafod hyn yn gynnar yn ystod y broses bontio er mwyn sicrhau mai dyma'r opsiwn gorau i'r person ifanc ac y gellir sicrhau cyllid ar gyfer hynny gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorion Gorau

Ewch i ymweld â'ch coleg lleol i ganfod pa gymorth sydd ar gael i'r person ifanc.

Siaradwch â phobl eraill am y cwrs yr hoffai'r person ifanc fynd arno. Meddyliwch am y llwyth gwaith, cyflymder y cwrs ac a ydych yn teimlo a fyddai'r person ifanc yn gallu cael y gorau ohono ac yn gallu defnyddio'r hyn fyddai yn ei ddysgu yn y dyfodol.

Gwaith a Hyfforddiant

Mae Gyrfa Cymru yn darparu cyngor a chanllawiau gyrfa i bobl o bob oed. Gellir cysylltu â nhw drwy eich ysgol, Gweithiwr Allweddol neu drwy gysylltu â nhw yn uniongyrchol ar 0800 028 48 44.

Mae Gyrfa Cymru wedi cynhyrchu llyfryn o'r enw 'Cynllunio Ymlaen Llaw - canllaw i rieni a gofalwyr'. Mae'r llyfryn hwn yn eich cyflwyno i'r gwasanaethau gaiff eu cynnig gan Gyrfa Cymru i bobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig. I gael copi o'r llyfryn hwn, cysylltwch â Gyrfa Cymru neu eich Gweithiwr Allweddol.

Bydd eich ysgol neu goleg hefyd yn darparu profiad gwaith i bobl ifanc ar ffurf sesiynau blasu neu'n gysylltiedig â rhywbeth mae ganddynt ddiddordeb ynddo. Bydd eich ysgol neu goleg yn gallu dweud mwy wrthyich.

Mae Cyngor Sir y Fflint hefyd yn darparu nifer o gyfleoedd gwaith y byddai'r person ifanc efallai'n teimlo yr hoffai fod yn rhan ohonynt. Gellir cael mwy o wybodaeth am y rhain yn y llyfryn "Pethau i'w gwneud yn ystod y dydd - I oedolion ag anableddau dysgu a'u gofawyr yn y teulu."

Iechyd a Llesiant

Mae aros yn iach yn bwysig iawn, felly mae annog y person ifanc i feddwl am beth sydd angen iddynt ei wneud i gadw'n iach yn bwysig iawn. Gallai meddwl am unrhyw anghenion meddygol sydd angen eu hystyried fod yn fuddiol iawn wrth wneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

DEWIS Cymru

DEWIS Cymru yw'r lle i gael gwybodaeth am lesiant yng Nghymru, ac mae ganddo wybodaeth all eich helpu i feddwl am beth sy'n bwysig i chi, ynghyd â gwybodaeth am sefydliadau a gwasanaethau lleol all eich helpu. www.dewis.wales

Byw'n Annibynnol

Bydd eich ysgol, y Tîm Pontio ac eraill yn gweithio gyda'r person ifanc a'i deulu er mwyn hyrwyddo sgiliau byw'n annibynnol.

Bydd eich ysgol hefyd yn helpu'r person ifanc gyda 'hyfforddiant cludiant' er mwyn eu helpu i deimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Mae'r Cynllun Cludiant Waled Oren hefyd ar gael yn Sir y Fflint. Bwriedir iddo helpu pobl, yn arbennig rhai sydd ar y Sbectwm Awtistiaeth, i ymdopi'n haws â chludiant cyhoeddus. Gallwch ofyn i'ch Gweithiwr Allweddol am fwy o wybodaeth.

Amser Hamdden

Mae gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint gronfa ddata o wahanol sefydliadau a grwpiau yn Sir y Fflint fydd yn helpu i ganfod beth sydd ar gael yn Sir y Fflint i'r person ifanc gael mynediad iddynt . Ffôn: 01352 703500

Arian a Budd-daliadau

Wrth i'r person ifanc fynd rhagddo i fyd oedolion, efallai y bydd yna newidiadau yn y budd-daliadau fydd yn eu derbyn. Efallai bydd angen talu am rai o'r gwasanaethau gofal a chymorth yr ydych yn eu derbyn, ac efallai bydd y ffordd y derbynnir y budd-daliadau yn newid hefyd.

Mae yna wahanol fudd-daliadau ar gael, ond efallai y bydd mynediad i'r rhain yn dibynnu ar anabledd y person ifanc neu feini prawf eraill.

Dechreuodd y Taliad Annibyniaeth Personol (TAB) ddisodli Lwfans Byw i'r Anabl (LBA) yn 2013. Mae'r taliadau yma'n helpu i dalu am gostau sydd gan rai pobl anabl, megis talu am gymorth o gwmpas y tŷ. Mae TAB yn fudd-dal anrhetadwy nad yw'n destun prawf modd ac nad yw statws cyflogaeth yn effeithio arno, y gall pobl ei wario yn y ffordd sy'n bodloni eu

Efallai y byddwch yn dymuno helpu'r person ifanc i agor cyfrif banc os nad oes un ganddo yn barod.

hanghenion orau. Gellir hawlio TAB o 16+ oed. Mae swm yr arian yn dibynnu ar sut mae'r cyflwr yn effeithio ar yr unigolyn, ac nid ar y cyflwr ei hun.

I gael mwy o wybodaeth am TAB, ewch i www.gov.uk/pip/overview

Pan yn 16 oed gall y person ifanc wneud cais am Daliadau Uniongyrchol drostynt eu hunain. Cyn yr oedran hwnnw, gall rhieni wneud cais. Os ydych yn gymwys i dderbyn cymorth er mwyn bodloni eich anghenion gofal, gall Cyngor Sir y Fflint roi'r arian i chi yn hytrach na'r gwasanaeth. Gallwch wario'r arian ar gaffael y cymorth sydd ei angen arnoch. Gelwir hyn yn Daliad Uniongyrchol. Gallwch ddefnyddio eich Taliad Uniongyrchol i drefnu cymorth sy'n briodol i chi a'ch ffordd o fyw.

Ceir mwy o wybodaeth am gymorth ariannol i bobl ag Anableddau Dysgu ar wefan Direct.gov a Gwefan Gyrfa Cymru.

I gael mwy o wybodaeth, siaradwch â'ch Gweithiwr Allweddol neu gallwch gysylltu â'ch swyddfa Cyngor ar Bopeth CAB) leol.

8. Bod yn Ofalwr

Gall pontio olygu newid i chi yn ogystal â'r person ifanc. Pan fyddant yn troi'n 18 oed, mae'r gyfraith yn dweud bod y person yr ydych yn gofalu amdano yn oedolyn.

- Mae hynny'n golygu bod ganddynt hawliau gwahanol
- Gallant wneud eu penderfyniadau eu hunain am eu bywydau, arian a ble maent eisiau byw.
- Gellir talu budd-daliadau iddynt yn uniongyrchol.
- Gallant bleidleisio.

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae gennych hawl i dderbyn Asesiad Gofalwr. Mae gofalwyr o dan 18 oed hefyd hyn gymwys i dderbyn Asesiad Gofalwr Ifanc gan Wasanaethau Cyhoeddus. Siaradwch â'ch Gweithiwr Allweddol i gael mwy o wybodaeth neu gallwch gysylltu â Gwasanaeth gwybodaeth Gofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS): www.newcis.org.uk

9. Newidiadau i Bontio yn y Dyfodol

Mae Llywodraeth Cymru yn diwygio'r system ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yng Nghymru.

Bydd y system ddiwygiedig yn:

- sicrhau bod pob dysgwr ag ADY yn cael cymorth i orchfygu rhwystrau dysgu ac i wireddu eu llawn botensial
- gwella'r ffordd o gynllunio a darparu cymorth i ddysgwyr o 0 i 25 gydag ADY gan roi lle canolog i anghenion, safbwyntiau, dymuniadau a theimladau yn y broses
- canolbwyntio ar bwysigrwydd canfod anghenion yn gynnar a sicrhau ymyrraeth brydlon ac effeithiol gaiff ei fonitro a'i addasu er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r deilliannau a ddymunir.

Mae mwy o wybodaeth am y newidiadau i'w gael ar Wefan Llywodraeth Cymru.

Nes bod y ddeddfwriaeth newydd yn dod i rym, mae'r holl gyfrifoldebau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r fframwaith deddfwriaeth presennol ar gyfer anghenion addysgol arbennig yn parhau.

10. Safbwyntiau am eich gwasanaeth

Os ydych yn anhapus ag unrhyw un o'r penderfyniadau a wneir, gallwch siarad â'ch Gweithiwr Allweddol neu gwyno. Gallwch chi, neu rywun ar eich rhan, gysylltu â'r Tîm Cwynion gyda'ch sylwadau, canmoliaeth neu gŵyn. Gallwch ysgrifennu atom, ein ffonio, neu anfon e-bost:

Y Swyddog Cwynion
Gwasanaethau Cymdeithasol
Tŷ Dewi Sant,
St David's Park,
Ewloe,
Sir y Fflint CH5 3XT

Ffôn: 01352 702623

E-bost: ian.maclaren@flintshire.gov.uk

11. Cysylltiadau

Tîm **CIDS/Pontio** Ffôn: 01352 701081

Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Ffôn: 03000 858

858 **Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant** Ffôn: 01352 701000

Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint

Mae cyngor ar gael i bawb sy'n byw yn neu'n ymweld â Sir y Fflint, ac mae'n wasanaeth am ddim, annibynnol, cyfrinachol a diduedd. www.flintshirecab.org.uk/
Llinell Gyngor 03444 77 20 20

Gyrfa Cymru

www.careerswales.com Ffôn: 0800 028 48 44

Gwasanaethau Eiriolaeth Gogledd Ddwyrain Cymru (ASNEW)

www.flintshireadvocacy.co.uk Ffôn: 01352 759332

Tros Gynnal Plant – Gwasanaethau Eiriolaeth i bobl ifanc

www.trosgynnal.org.uk Ffôn: 02920 396974

Gwasanaeth Gwybodaeth Gyrfaoedd Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWICS)

www.newcis.org.uk Ffôn: 01352 752525

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint (FISF)

www.fisflintshire.co.uk Ffôn: 01352 703500

12. Adnoddau a Gwefannau Defnyddiol

Pethau i'w gwneud yn ystod y Dydd - I Oedolion ag Anableddau Dysgu a'u gofalwyr yn y teulu

www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Social-Services/Adult-Social-Services/SSA-L5-About-things-to-do-in-the-day.pdf

Rhaglen Gweddnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol, Llywodraeth Cymru

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolhome/pupilsupport/additoinal-learning-needs-reform/?lang=en>

Coleg Cambria – Canllaw ar gymorth a Gwasanaethau i Fyfyrrwyr ag Anableddau

Saesneg - <https://images.cambria.ac.uk/wp-content/uploads/2016/09/Disabilities-Guide-Sept-2016-Eng-LR.pdf>

Cymraeg - <https://images.cambria.ac.uk/wp-content/uploads/2016/09/Disabilities-Guide-Sept-2016-Welsh-LR.pdf>

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)

www.gov.uk/government/organisations/department-for-work-pensions

Taliadau Uniongyrchol, Cyngor Sir y Fflint

www.flintshire.gov.uk/directpayments

Hawliau Anabledd – GOV.UK

www.gov.uk/rights-disabled-person/overview

Tafleini gwybodaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint

www.flintshire.gov.uk/cymdeithasol

Cyllid i fyfyrwyr ag Anawsterau Dysgu ac Anableddau, Gyrfa Cymru

www.careerswales.com/en/education-and-courses/how-can-i-fund-my-study/funding-for-students-with-learning-difficulties-and-disabilities

Cymorth os oes gennych blentyn anabl, GOV.UK

www.gov.uk/help-for-disabled-child

Cynllun Cludiant Waled Oren

www.asdinfo.wales.co.uk/orange-wallet

Paratoi ar gyfer Bywyd fel oedolyn a Phontio - Cysylltu â Theulu

www.scribd.com/document/18052727/Contact-a-Family-Preparing-for-adult-life-and-transition-Scotland

Tafleini gwybodaeth Gwasanaethau Cymdeithasol

www.flintshire.gov.uk/cymdeithasol

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Gwybodaeth, Llywodraeth Cymru

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/?lang=en>

Cynllunio Pontio i bobl ifanc Anabl, Dewisiadau'r GIG

www.nhs.uk/conditions/social-care-and-support-guide/pages/transition-planning-disabled-young-people.aspx

Pecynnau cyfreithiol: gwybod eich hawliau

Mae canllawiau cynghori Mencap yn darparu gwybodaeth ar anabledd dysgu i bobl ar bynciau amrywiol, o dai ac addysg i iechyd a gofal cymdeithasol. Os ydych yn aelod o'r teulu, gweithiwr cymorth neu'n eiriolwr i rywun sydd ag anabledd dysgu, mae'r canllawiau yma hefyd yn amcanu at roi tawelwch meddwl i chi drwy gynnig cyngor clir ac ymarferol.

- Mynediad i wasanaethau iechyd a chymdeithasol: hawliau oedolion ag anabledd dysgu
- Cyfraith Tai: hawliau tenantiaid ag anabledd dysgu
- Gwneud cais am le mewn coleg addysg bellach arbenigol: canllaw i bobl ifanc 19-25 oed.
- Cymorth i rieni ag anabledd dysgu drwy'r system amddiffyn plant

Cynhyrchwyd y pecynnau yma gan Mencap Cymru ac Ysgol y Gyfraith Caerdydd. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Mencap WISE: information.wales@mencap.org.uk


www.mencap.org.uk/mencap-cymru/mencap-cymru-our-resources-and-guides


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 03000 858 858 i gael fersiwn Saesneg.



This document is available in English. Please contact 03000 858 858 for an English version.

Cyf: L8X


Atodiad 1 - Tabled proffil un dudalen (addaswyd o dempled a ddefnyddiwyd gan Ysgol Maes Hyfryd

<p>Fy Enw yw</p>	 <p>fi</p>	<p>Llun yma</p>
<p>Ac mae hyn yn wybodaeth bwysig i mi</p>	<p>Diweddarwyd - Dyddiad</p>	

<p>Pethau mae pobl yn ei hoffi a'i edmygu amdanaf</p>	
Empty space for notes	


<p>Fy nheulu a fy ffrindiau pwysig yw...</p>		<p>Byddai diwrnod da yn yr ysgol yn cynnwys...</p>	
Empty space for notes		Empty space for notes	

Weithiau efallai y byddaf angen eich help a chymorth gyda...



--

Mae'r rhain yn ffyrdd rwyf yn eu defnyddio i gyfathrebu...



Yn y sefyllfa hon	Rwyf yn gwneud...	Rydym yn meddwl ei fod y golygu	A dylem...